

CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL – 2 GORFFENNAF, 2024

ADRODDIAD GAN: y Trysorydd

PWNC: Adroddiad am Flwyddyn Ariannol 2024/2025

ADRODDIAD AR GYFER: Gwybodaeth a Phenderfyniad

DATGANIAD CYFRIFON 2024/2025

Wedi'i atodi, fel atodiad i'r adroddiad hwn, mae'r datganiad cyfrifon a archwiliwyd yn annibynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025. Bydd yr aelodau'n nodi, yn ystod y flwyddyn, bod gwariant wedi bod yn £21,420.96 yn fwy na'r incwm. Mae hyn o'i gymharu â gormod o wariant dros incwm o £3718.66 yn 2023/2024 a gormod o incwm dros wariant o £8,969.44 yn 2022/2023. Darperir rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros y newid hwn isod. Mae'r cyfrifon yn cynnwys taliadau a dderbyniwyd gan bedwar CYSAG/CYS, yn gysylltiedig â 2023/2024 a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, mae tanysgrifiadau wedi'u derbyn gan 18 CYSAG/CYS a derbyniwyd taliadau gan 2 CYSAG arall ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Yn anffodus, rhaid i mi adrodd bod aelodaeth CCYSAGauC yn parhau i fod yn 20 CYSAG/CYS yn hytrach na 22 gan nad yw CYSAG/CYS Sir Benfro ac Abertawe yn aelodau mwyach. Gobeithio y byddant yn ailystyried eu safbwyntiau ac yn ailymuno â CCYSAGauC yn y dyfodol gan ei bod yn bwysig i CCYSAGauC allu siarad dros a chynrychioli buddiannau pob CYSAG/CYS yng Nghymru. Dechreuodd y flwyddyn ariannol gyda balans o £50,753.57 a daeth i ben gyda balans o £29,332.61. Rhybuddiwyd yr aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2023/2024 y byddai gwariant sylweddol yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2024/2025 oherwydd Cynhadledd CCYSAGauC ragorol 2024, a pharatoi ffilm ar CGM yn ystod yr un flwyddyn ariannol. Felly, mae cyllid CCYSAGauC yn parhau mewn cyflwr iach, os caiff ei leihau gan y gwariant arfaethedig uchod, mae digon o arian ar gael i CCYSAGauC o hyd, i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig.

a) Derbyniadau

Fel mewn blynnyddoedd blaenorol, prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2024/2025 fu'r tanysgrifiadau blynnyddol a delir gan aelodau CYSAGau/CYSau. Bydd aelodau'n ymwybodol, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2024 CCYSAGauC, y penderfynwyd y dylai'r tanysgrifiad blynnyddol ar gyfer 2024/2025 aros yn £495.00, yr un swm ag ar gyfer 2022/2023 a 2023/2024 oherwydd yr amgylchiadau ariannol anodd presennol y mae Awdurdodau Lleol yn eu profi. Mae hyn wedi arwain at incwm o £8,910.00, sy'n cynrychioli'r 18 tanysgrifiad a

dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n bleser adrodd bod y 2 danysgrifiad CYSAG/CYS oedd yn weddill bellach wedi'u talu. Felly, gallaf adrodd bod pob un o'r 20 tanysgrifiad ar gyfer 2024/2025 bellach wedi'u derbyn. Roedd y derbynebau hefyd yn cynnwys y taliad hwyr o £1,980.00 sy'n cynrychioli'r 4 tanysgrifiad o £495.00 yn gysylltiedig â blwyddyn ariannol 2023/2024.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd taliad o £1,125.00 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu modiwlau Dysgu Proffesiynol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) a gyflawnwyd gan gydweithwyr CCYSAGauC ac roedd hwn yn ychwanegiad derbyniol at gronfeydd CCYSAGauC.

Y ffynhonnell incwm flynyddol reolaidd arall i CCYSAGauC yw Llog Banc ac roedd hyn yn £109.39 yn 2024/2025, cynnydd o £14.43 ar £94.96, y swm a dderbyniwyd yn 2023/2024. Mae'n galonogol nodi'r cynnydd yn y llog a delir ar Gyfrif Rheolwr Arian Busnes CCYSAGauC ond, bydd aelodau'n ymwybodol bod cyfraddau llog wedi dechrau gostwng eto. Mae'n amlwg, fel y nodwyd yn flaenorol, y bydd yn cymryd peth amser cyn y derbynnir incwm sylweddol trwy log banc.

b) Gwariant

Dyma'r meysydd gwariant yng nghyfrifon 2024/2025:-

Y prif faes gwariant yng nghyfrifon 2024/2025 yw costau cynnull Cynhadledd CCYSAGAUC, a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2024. Cyfanswm y gost oedd £17,235.24 a cheir dadansoddiad isod:-

Cyflwyno seminar cyn y gynhadledd 250.00
Ffilmio yn ystod y gynhadledd 6600.00
Ffi cyflwynydd 988.93
Teithio swyddogion 159.00
Llety swyddogion 252.79
Beiros cynhadledd 134.85
Llogi ystafell 4242.00
Cyfieithu ar y pryd 682.56
Mân-gostau'r gynhadledd 591.32
Arlwyo 3261.83
Prynu tagiau enw 71.96

Bydd yr aelodau'n cytuno y bu hon yn gynhadledd ardderchog ac yn werth yr arian.

Yr ail brif faes gwariant yng nghyfrifon 2024/2025 yw cost paratoi ffilm CCYSAGauC ar CGM a chafodd hon dderbyniad da iawn. Cyfanswm cost paratoi'r ffilm oedd £10,200.00 a rhoddwyd rhodd o £141.50 i Awen, y cyflwynydd.

Cyfanswm cost cynnull cyfarfodydd oedd £2,739.27 ac mae hyn wedi'i rannu'n £1,424.92 ar gyfer cyfieithu dogfennau a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, a £1,314.35 ar gyfer cymryd cofnodion. Mae'r gost hon yn cymharu â gwariant o £3,359.02 yn 2023/2024 ac mae'n llai oherwydd na thalwyd unrhyw gostau cyflenwi a bod cost trwydded Zoom ar gyfer 2024/25 wedi disgyn y tu allan i flwyddyn ariannol 2024/2025.

Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod trefniadau ysgrifenyddol CCYSAGauC wedi parhau heb eu newid. Mae swydd yr Ysgrifennydd Cydlynw wedi parhau gyda rôl goruchwyllo'r swyddogaeth ysgrifenyddol ond heb yr ystod lawn o weithgareddau ysgrifenyddol. Mae'r swydd hon yn denu honorariwm o £1,500.00 ac fel arfer telir hwn fel rhandaliadau tymhorol. Cefnogir yr Ysgrifennydd Cydlynw gan Ysgrifennydd Cynorthwyol ac mae'r swydd hon hefyd yn denu honorariwm o £1,500.00. Mae'r costau ysgrifenyddol wedi'u lleihau trwy ddefnyddio cyfathrebu electronig ac ni wnaed unrhyw hawliadau am dreuliau ysgrifenyddol yn ystod y flwyddyn. Mae swydd yr Ysgrifennydd Cofnodion hefyd yn denu honorariwm o £1,500.00 ond mae'r swydd wedi aros yn wag ers ymadawiad deiliad blaenorol y swydd. Gyda ymadawiad yr Ysgrifennydd Cofnodion, prynwyd gwasanaethau unigolyn a oedd yn fodlon cofnodi'r cyfarfodydd, o bell, o recordiadau o'r cyfarfodydd. Cyfanswm costau'r gwasanaeth hwn ar gyfer 2024/2025 oedd £1,314.35 ac maent ymhell o fewn yr honorariwm a fyddai wedi'i dalu i Ysgrifennydd Cofnodion. Mae'r taliad yn ymwneud â'r swm gwirioneddol o waith dan sylw, yn hytrach nag honorariwm. Mae CCYSAGauC yn ffodus o allu sicrhau gwasanaethau unigolyn sy'n gallu darparu cofnodion o ansawdd uchel o'r cyfarfodydd, a hyd yn hyn, mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n dda.

Cyfanswm Treuliau'r Trysorydd oedd £55.35, sy'n debyg iawn i £43.90, lefel y treuliau yn 2023/2024. Mae'r treuliau hyn yn ymwneud, yn bennaf, â chostau postio a nwyddau ysgrifennu.

Talwyd swm o £10.79 i gynnal enw parth y wefan. Bydd aelodau'n ymwybodol bod gan CCYSAGauC wefan newydd ardderchog bellach sy'n codi proffil CCYSAGauC ac yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn ogystal ag Addoli ar y Cyd ar gyfer CYSAGau/CYSau, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill.

Bydd yr aelodau'n ymwybodol o adroddiad y Trysorydd y llynedd fod Ffioedd Banc bellach yn cael eu codi ar Gyfrif Elusennol CCYSAGauC. Mae'r cyfrif hwn yn cario ffi fisol o £5.00 a chodir am sieciau a delir i mewn ac allan o'r cyfrif dros y cownter ar £0.40 y siec. Cyfanswm y ffioedd ar gyfer 2024/2025 oedd £73.20 o'i gymharu â £74.00 yn 2023/2024. Y

newyddion da yw y bydd HSBC yn dileu'r ffi fisol o £5.00 o 1 Gorffennaf, 2025 ymlaen. Bydd hyn yn arwain at arbediad o £60.00 mewn blwyddyn lawn.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £90.00 ar Danysgrifiad Aelodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:-

- EFTRE (2024) - £90.00

Mae'n sicr y bydd eraill yn dilyn maes o law.

Gwahoddir aelodau i dderbyn a mabwysiadu'r datganiad cyfrifon sydd ynghlwm.

TANYSGRIFIADAU BLYNYDDOL 2025/2026

Wrth ystyried tanysgrifiad blynyddol priodol fesul CYSAG/CYS ar gyfer aelodaeth o CCYSAGauC yn ystod blwyddyn ariannol 2025/2026, bydd aelodau'n ymwybodol bod y penderfyniad wedi'i wneud yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC yn 2001 y byddai'r tanysgrifiad i CCYSAGauC, yn y dyfodol, yn cael ei gynyddu'n flynyddol, yn unol â chwyddiant. Dilynwyd yr arfer hwn yn flynyddol tan flwyddyn ariannol 2023/2024 pan wnaed y penderfyniad i beidio â chynyddu'r tanysgrifiad ond ei gynnal ar £495.00, yr un lefel ag ar gyfer 2022/2023. Gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd yr amgylchiadau ariannol anodd a brofwyd gan Awdurdodau Lleol.

Er bod cyllid CCYSAGauC mewn cyflwr iach ar hyn o bryd, mae'n bwysig cynnal balans sylweddol os yw CCYSAGauC am allu trefnu digwyddiadau cenedlaethol pellach a chynnal mwy o brosiectau yn hyderus. Fodd bynnag, mae'n rhesymol, yng ngoleuni'r amgylchiadau ariannol anodd parhaus y mae Awdurdodau Lleol yn eu profi, na ddylid codi'r tanysgrifiad i CCYSAGauC ar gyfer 2025/2026. Felly,

ARGYMHELLIR bod y tanysgrifiad blynyddol fesul CYSAG/CYS ar gyfer aelodaeth o CCYSAGauC, yn ystod blwyddyn ariannol 2025/2026, yn aros ar £495.00, yr un lefel â thanysgrifiadau 2024/2025, 2023/2024 a 2022/2023.

TALU TREULIAU

Bydd yr aelodau'n cofio bod y trefniadau canlynol ar gyfer talu treuliau naill ai wedi'u cytuno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC yn 2020 neu wedi'u cytuno wedi hynny: -

- taliadau o 45 ceiniog y filltir i swyddogion sy'n ymgymryd â busnes ar ran CCYSAGauC lle nad ydynt yn gallu hawlio gan eu CYSAGau/CYSau lleol ac ad-daliad ar yr un lefel i siaradwyr sy'n cyfrannu at gyfarfodydd CCYSAGauC;
- ad-daliad i swyddogion o gostau parcio gwirioneddol, lle cânt eu hysgwyo, mewn perthynas â chynnal busnes CCYSAGauC;
- lle defnyddir trafndiaeth gyhoeddus yn hytrach na char preifat, ad-daliad o brisiau trên/bws gwirioneddol hyd at lefel y pris safonol ar y ddealltwriaeth y byddai cynigion arbennig yn cael eu cymryd lle bynnag y bo modd;

- ad-daliad costau cynhaliaeth rhesymol mewn perthynas â swyddogion CCYSAGauC a siaradwyr yng nghyfarfodydd CCYSAGauC;
- ad-daliad costau gwirioneddol llety dros nos ar y ddealltwriaeth bod costau rhesymol yn cael eu hysgwyddo;
- mewn perthynas ag athrawon sy'n cael eu rhyddhau o'r ysgol i wneud cyflwyniadau yng nghyfarfodydd CCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn ariannu hyd at un diwrnod llawn o gyflenwi. Os bydd hyn yn annigonol, rhaid cysylltu'n gynnar â'r Trysorydd, a fydd â'r disgrisiwn i gytuno ar lefel uwch o gyflenwi mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd;
- nid yw aelodau CYSAGau/CYSau ac eraill sy'n mynychu prif gyfarfodydd CYSAGauC yn gymwys i hawlio treuliau gan CYSAGauC ond dylent hawlio gan eu CYSAG/CYS eu hunain neu'r corff y maent yn ei gynrychioli;
- Bydd yr Ysgrifennydd Cydlyn yn derbyn honorariwm blyneddol o £1,500.00. Os cymerir y swydd gan athro sy'n gwasanaethu, yna telir am staff cyflenwi yn ogystal â'r honorariwm a'r treuliau presennol (teithio, llety a chynhaliaeth angenrheidiol). Telir staff cyflenwi i'r ysgol, a thelir yr honorariwm i'r swyddog unigol;
- Bydd yr Ysgrifennydd Cynorthwyol yn derbyn honorariwm blyneddol o £1,500.00. Os cymerir y swydd gan athro sy'n gwasanaethu, yna telir staff cyflenwi yn ogystal â'r honorariwm a'r treuliau presennol (teithio, llety a chynhaliaeth angenrheidiol). Telir staff cyflenwi i'r ysgol, a thelir yr honorariwm i'r swyddog unigol;
- os caiff ei benodi, bydd Ysgrifennydd Cofnodion yn derbyn honorariwm blyneddol o £1,500.00 ynghyd â threuliau, yn ogystal â llety dros nos os oes angen. Os bydd y trefniant presennol yn parhau, bydd CCYSAGAUC yn talu anfonebau a gyflwynir gan yr unigolyn sy'n paratoi cofnodion o recordiadau cyfarfodydd yn unol â lefel y gwaith dan sylw;
- gall aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC hawlio treuliau gan CCYSAGauC am fynychu cyfarfodydd y pwyllgor gwaith lle na allant hawlio treuliau o rywle arall;
- Mae aelodau o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC, sy'n athrawon sy'n gwasanaethu, yn gymwys i hawlio costau athrawon cyflenwi er mwyn eu galluogi i gael eu rhyddhau i fynychu cyfarfodydd. Dylai'r hawliad gael ei gyflwyno i'r Trysorydd gan yr ysgol sy'n cyflogi a dylai gynrychioli costau gwirioneddol;
- er bod rhywfaint o aelodaeth gyffredin, mae PYCAG yn endid ar wahân ac nid yw CCYSAGauC yn gallu ariannu eu cyfarfodydd na'u treuliau;
- lle mae aelodau PYCAG yn ymgymryd â gwaith ar ran CCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn cyfrannu at eu treuliau. Rhaid cyflwyno ceisiadau ymlaen llaw i'r Trysorydd a fydd â'r disgrisiwn i'w hystyried ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd;
- Bydd CCYSAGauC, ar adegau, yn talu ffioedd i bobl fynychu cyfarfodydd neu gyflawni gwaith ar ddiwrnodau gwaith proffesiynol os yw hyn wedi'i gytuno

ymlaen llaw. Rhaid cyflwyno ceisiadau ymlaen llaw i'r Trysorydd, a fydd â'r disgresiwn i'w hystyried ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd. Disgwylir y bydd tystiolaeth o'r gwaith a wnaed a gallai hyn fod yn bapur neu'n adroddiad yn dilyn y cyfarfod a fynychwyd.

ARGYMHELLIR cymeradwyo'r trefniadau uchod ar gyfer 2025/2026.

CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

DATGANIAD CYFRIFON 2024/2025

DERBYNIADAU

Tanysgrifiadau Blynnyddol 2023/2024 (4 CYSAG am 495.00 y CYSAG) 1980.00
Tanysgrifiadau Blynnyddol 2024/2025 (18 CYSAG am 495.00 y CYSAG) 8910.00
Llywodraeth Cymru am ddysgu proffesiynol a gynhaliwyd 1125.00
Llog Banc 109.39

Cyfanswm y Derbyniadau 12124.39

GWARIANT

Cynhadledd CCYSAGauC (13 Mehefin, 2024):

Cyflwyno seminar cyn y gynhadledd 250.00
Ffilmio yn ystod y gynhadledd 6600.00
Ffi cyflwynydd 988.93
Teithio swyddogion 159.00
Llety swyddogion 252.79
Beiros cynhadledd 134.85
Llogi ystafell 4242.00
Cyfieithu ar y pryd 682.56
Mân-gostau'r gynhadledd 591.32
Arlwyo 3261.83
Prynu tagiau enw 71.96
17235.24

Treuliau Cyfarfodydd:

Cyfieithu dogfennau 1424.92
Cymryd cofnodion 1314.35
2739.27

Gwefan – enw parth 10.79

Ffioedd Banc 73.20

Honorariwm yr Ysgrifennydd Cydlyn 1500.00

Honorariwm yr Ysgrifennydd Cynorthwyol 1500.00

Ffilm ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Cynhyrchu ffilm 10200.00
Rhodd i'r cyflwynydd 141.50
10341.50
EFTRE (2024) 90.00

Treuliau'r Trysorydd 55.35

Cyfanswm y Gwariant 33545.35

LLAI Gormod o Wariant dros Dderbyniadau 21420.96

12124.39

Y FANTOLEN AR 31/3/25

Y Fantolen ar 31/3/24 50753.57

LLAI

Gormod o Wariant dros Dderbyniadau 21420.96

Balans ar 31/3/25 29332.61

Cynrychiolir gan:

Balansau Banc ar 31/3/25:

Cyfrif Rheolwr Arian Busnes 5715.72

Cyfrif Banc Elusennol 24316.92

30032.64

LLAI

3 sic wedi'u tynnu a heb eu cyflwyno ar 31/3/25

55.35

394.68

250.00

700.03

29332.61

Wedi'i archwilio a'i ganfod yn gywir:

Llofnod: Dyddiad: